# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 6ed Hydref 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, Meic Francis, Dylan Edwards, Caredig Jones, Richard Davies, John Davies a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng.Rowland Jones,**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

**15/869**
Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/870 - MATERION YN CODI**

1. Diolchwyd Cyng.Ann Tudor i'r gymuned am ei help a chefnogaeth wrth dorri'r fynwent eleni. Roeddwyd llongyfarchiadau mawr i Dan Owens. Mae llawer o aelodau'r gymuned wedi canmol pa mor dda y cedwir y fynwent eleni, ac roedd pob un o'r cynghorwyr yn gytûn.
2. Roedd yr hyfforddiant difib a gynhaliwyd y mis diwethaf yn llwyddiant mawr. Roddwyd diolch i dîm gwlfoddolwyr o'r British Heart Foundation am cynnal y noson.
3. Toiledau cyhoeddus - rydym yn aros i Gymdeithas ddatblygu Cymuded Llanilar i godi'r pwnc hwn yn ystod eu cyfarfod nesaf. Cododd y posibilrwydd o gael 'trial run', yn ystod oriau dydd yn unig efallai? Fydd hyn yn cael ei awgrymu i'r pwyllgor datblygu.
4. Ni does unrhyw ymateb wedi eu derbyn oddiwrth Adran Priffyrdd Cyngor Ceredigion ynglŷn â'r dŵr wrth ymyl cornel Gwel Y Môr na'r gridiau ar ffordd Trawscoed.
5. Ar y pwnc, Cae'r Ficerdy. Holwyd yr Adran Gynllunio Cyngor Sir pe gallem drefnu fod cynrychiolydd yn gyfarfod ag aelodau o'r Cyngor Cymuned ar y safle. Maent yn gofyn for y Cyngor yn cyflwyno dyddiadau. Fe awgrymwyd Dydd Iau/Gwener gan y Cyngor Cymuned. Phaswid i'r clerc cyfleu gwybodaeth yma i'r Adran Gynllunio. Nid oes unrhyw ymateb wedi eu derbyn gan Mr AP Glannville.

**15/871 - LLYTHYRON**

1. Gwybodaeth am wasanaeth Sul y Cofio a ddarperir gan Cyng.Rowland Jones. Bydd y Tad Stephen Edwards yn cymryd y gwasanaeth, sy'n cael ei gynnal ar y 08/11/2015 am 10.45yb.  Bydd posteri yn cael eu harddangos yn y pentref yn fuan.
2. Agenda Un Llais Cymru am eu cyfarfod ar y 14/10/2015.
3. Llythyr oddiwrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglyn a Prosiect Iechyd Meddwl newydd.
4. Drafft Datganiad Polisi Gamblio oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion

5. Llythyr oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion ynglŷn â Rhestr Gymeradwy ar gyfer darparu Gwasanaethau atodol i glirio eira.
6. Ymateb oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r cais am derfyn cyflymder ar y U1165. Yn anffodus, nid oes unrhywbeth all y Cyngor Sir wneud ar hyn o bryd.
7. Adroddiad Archwiliad BDO ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015. Darllenwyd cynnwys yr adroddiad i holl aelodau'r cyngor cymuned a rhoddwyd sylw at y darn 'Materion yn codi'.
8. Fe wnaeth y Cyng. Meic Francis sôn am gynnwys nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd, Cynhadledd Un Llais Cymru 2015, manylion cwrs hyfforddiant 'code of conduct', Cynhadledd paratoi ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Proposed changes to Planning policy Wales, Consultation Event - Waste and Resource Efficiency Plan, Llwybrau Teithio a.y.b.

**15/872 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Hydref; £113.27. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.
2. Cais oddiwrth Pwyllgor Mileniwm Llanilar, am gymorth ariannol eleni eto at noson Dan Wyllt y pentref. Awgrymwyd rhoi £350 eleni. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Caredig Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies. Fe wnaeth y Cynhorwyr Dewi Rattray, Ann Tudor a Dylan Edwards datgan diddordeb.
3. Tal am y Dorch Pabby Coch. Awgrymwyd siec o £25, sy'n cynrychioli cost y dorch a rhodd. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Caredig Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.
4. Anfoneb oddi wrth y BDO; Standard fee for auditing the annual return. £175.00 + VAT. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.

**15/873 – CYNLLUNIO**

1. Cais A150697 - The Vicarage, Llanilar. Y Bwriad: Variation of Condition 2 of A150033 - to allow reduction of 1.1m in width of dwelling and to add photovoltaic panels to the garage roof.
   Penderfynnwyd gefnogi'r cais, roedd pawb yn gytûn.

2. Cais A150780 - Penrhiw, Corsswood, Aberystwyth. Y Bwriad: Erection of an extension.
   Penderfynnwyd gefnogi'r cais, roedd pawb yn gytûn.

**15/874 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Cafodd ei ddwyn i sylw'r pwyllgor gan y Cyng.Meirion Davies, fod aelod o'r gymuned wedi gofyn a oes posibilrwydd o gael arwyddion cyfyngiad cyflymder (fel yr arwyddion solar sy'n fflachio), ym mhob mynedfa i'r pentref? Phaswid i'r clerk ysgrifennu at adran Priffyrdd i godi'r cais yma.
2. Awgrymwyd gan y Cyng.Ada Evans fod fersiwn fyrrach o'r cofnodion yn cael eu gosod yn y Ddolen, yn enwedig gan fod y fersiynau cyflawn nawr ar gael ar dudalen we'r Cygor. Roedd y Cynghorwyr yn gytûn, ond bod rhaid i hyn gael ei nodi.

3. Fe gynghorwyd gan y Cyng.Ada Evans fydd Goleuo'r Goeden Nadolig yn cymryd lle ar y 29ain o Dachwedd.  Phaswyd i’r Clerc cysylltu a Tom Edwards i sicrhau bod popeth yn iawn gyda'r goleuadau a.y.y.b.
4. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Caredig Jones fod cerbydau yn parcio wrth ymyl mynedfa’r llwybr Ystywth a’r Ffordd Trawscoed.   Mae hyn yn wneud yn berygl i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr ac i'r cerbydau sy'n teithio ar y ffordd. Mae hefyd yn blociau unrhyw fynediad argyfwng  brys i'r llwybr beicio. Be ddigwyddodd i’r arwydd ‘dim parcio’?  Phaswyd i’r clerc ysgrifennu at yr adran priffyrdd.
5. Dywedodd y Cyng.Dewi Rattray fod y FUGS am archebu Peiriant Difib ar gyfer y pentref, i gael eu gosod y tu allan i'r Ganolfan Gymunedol.  Roedd y Cynghorwyr yn gytûn fod hyn yn rhodd arbennig i’r gymuned.  Phaswyd i’r clerc ysgrifennu at y Cyngor Ddatblygu am ganiatâd i’w osod ar wal y ganolfan.  Hefyd i’r ysgrifennu at y FUGS i roi diolch.
6. Unwaith eto, mae'r parcio codwyd sefyllfa parcio ym Mehntrellyn. Phaswyd i'r clerc ysgrifennu at awdurdodau’r heddlu.
7. Cafwyd ymholiad gan y Cyng.Dylan Edwards…’ble mae stop tap ar gyfer Dol Ystwyth?’.  Phaswyd i’r clerc cysylltu â Dŵr Cymru.
8. Cafodd ei ddwyn i sylw'r pwyllgor nad oedd y plac 'Henry Tudur' yn sgwâr y pentref yn glir iawn.  Phawsyd i’r Cyng.Ann Tudor edrych ar hyn.
9. Tynnwyd sylw'r Cyngor gan aelod o'r cyhoedd, bod y goleuadau ar waelod stad Tai Gwarfelin yn wael iawn.  Phaswyd i'r clerc cysylltu a Tai Ceredigion ynglyn a hyn.
10. Dywedodd y Cyng.Ann Tudor fod aelod o'r cynhoedd wedi weld lorri grit ar ffordd Trawscoed ar 18 Medi. Gofynnwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at y cyngor i ofyn unwaith eto fod y ffordd penodol yma yn cael eu graeanu yn ystod misoedd y gaeaf, (a nid yn unig yn ystod misoedd yr haf!).

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.00yh